**P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Animal Aid ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Tachwedd 2012, ar ôl casglu 1066 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn orfodol i osod teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai er mwyn helpu milfeddygon i reoli a monitro yn well, darparu deunydd ffilm er budd hyfforddiant ac ail-hyfforddi, atal cam-drin anifeiliaid, fel y ffilmiwyd gan Animal Aid, ac fel tystiolaeth ar gyfer erlyniad mewn achosion o gam-drin.